# Gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid.

Ar gyfer y safon hon bydd angen eich bod wedi datblygu eich gwybodaeth, dealltwriaeth a'ch sgiliau mewn perthynas â gweithredu hyfforddiant unigolion ac anifeiliaid i weithio gyda'i gilydd.

Byddwch yn gweithredu rhaglen hyfforddiant sydd eisoes wedi cael ei datblygu a bydd disgwyl i chi adolygu a chofnodi cynnydd yn erbyn yr amcanion a nodir yn y rhaglen hyfforddiant.

Dylai'r holl weithgareddau gael eu gwneud yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon fod wedi cael hyfforddiant addas a chadarnhau bod eu hymarfer yn cydymffurfio â safonau a pholisïau trugarog, a'u bod yn gweithio o fewn terfynau eu hawdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'u profiad.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sydd yn gyfrifol am weithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion ac anifeiliaid i weithio gyda'i gilydd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
3. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisi sefydliadol
4. trafod a rhyngweithio gyda'r anifail mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch yn ystod yr hyfforddiant
5. asesu addasrwydd yr unigolion â'r anifeiliaid ar gyfer y gweithgareddau hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio a gweithredu lle bo angen
6. asesu addasrwydd yr amgylchedd hyfforddiant ar gyfer y gweithgareddau hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio
7. paratoi'r unigolion â'r anifeiliaid ar gyfer y rhaglen hyfforddiant i'w galluogi i weithio gyda'i gilydd
8. paratoi'r adnoddau sydd yn angenrheidiol ar gyfer y gweithgareddau hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio
9. gweithredu gweithgareddau hyfforddiant gan ddefnyddio dulliau ac adnoddau yn unol â'r rhaglen hyfforddiant
10. monitro cyflwr emosiynol ac ymddygiad corfforol yr unigolion â'r anifeiliaid cyn ac yn ystod hyfforddiant
11. adnabod arwyddion straen, gwrthdaro ac osgoi yn yr unigolion sydd eisiau gweithio gydag anifeiliaid ac ymateb yn unol â hynny
12. adnabod arwyddion straen, ofn, ymosodedd, poen, gwrthdaro ac osgoi yn yr anifail ac ymateb yn unol â hynny
13. rhoi adborth i'r unigolion sydd yn dymuno gweithio gydag anifeiliaid a'u cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau
14. adolygu, cofnodi ac adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd tuag at amcanion yr hyfforddiant, yn unol â'r rhaglen hyfforddiant
15. rhoi unrhyw newidiadau i'r rhaglen hyfforddiant y cytunwyd arnynt ar waith i addasu gweithgareddau, dulliau neu adnoddau hyfforddiant

16. gwybod a yw'r rhaglen hyfforddiant neu dasg benodol yn debygol o fod yn niweidiol i iechyd a lles yr anifail
17. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
18. cael cyngor proffesiynol ac atgyfeirio achosion pan fo angen
19. cynllunio, cofnodi, gwerthuso ac adlewyrchu ar eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a gweithio o fewn gofynion y sefydliad proffesiynol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
eich cyfrifoldebau proffesiynol fel hyfforddwr a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2.
eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig, a therfynau cyfreithiol y Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol
3. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. pwysigrwydd diogelwch yswiriant, yn cynnwys indemnedd proffesiynol
5. sut i sicrhau bod lles yr anifail yn cael ei gynnal trwy gydol yr hyfforddiant ac nad yw eich ymddygiad neu ymddygiad yr unigolion sydd yn dymuno gweithio gydag anifeiliaid yn achosi adweithiau negyddol, ofn neu drallod i'r anifeiliaid
6. sut i asesu addasrwydd yr unigolion â’r anifeiliaid ar gyfer y gweithgaredd hyfforddiant sydd wedi ei gynllunio, cyn ei weithredu
7. sut i asesu addasrwydd yr amgylchedd â’r adnoddau ar gyfer y gweithgareddau hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio, cyn eu gweithredu
8. amcanion y rhaglen hyfforddiant a sut i fonitro cynnydd
9. yr effeithiau seicolegol a ffisiolegol y gallai'r gweithgareddau hyfforddiant eu cael ar yr unigolion â’r anifeiliaid sydd yn dymuno gweithio gyda'i gilydd
10. sut i ddewis y dulliau hyfforddiant mwyaf addas ar gyfer y rhaglen hyfforddiant ar gyfer yr unigolion â’r anifeiliaid sydd yn dymuno gweithio gyda'i gilydd
11. sut i baratoi'r unigolion â’r anifeiliaid ar gyfer hyfforddiant a sut bydd hyn yn wahanol yn unol â'r rhaglen hyfforddiant
12. sut i baratoi a defnyddio'r adnoddau sydd yn angenrheidiol ar gyfer y gweithgareddau hyfforddiant
13. pwysigrwydd adnabod ac asesu ymddygiad a chyflwr yr unigolion â’r anifeiliaid cyn ac yn ystod gweithgareddau hyfforddiant a phryd i weithredu
14. sut i roi adborth addas i'r unigolion sydd yn dymuno gweithio gydag anifeiliaid
15. sut i drafod yr anifail mewn ffordd sydd yn lleihau straen a risg i chi eich hun a phawb sydd yn gysylltiedig â'r hyfforddiant
16. y defnydd o atgyfnerthu cadarnhaol a negyddol â’r effeithiau y mae'r ymagweddau hyn yn eu cael ar ymddygiad anifeiliaid

17. sut i gydnabod efallai nad yw gweithgareddau, dulliau neu adnoddau hyfforddi yn addas ar gyfer yr unigolion neu'r anifail â’r camau i'w cymrud
18.
y ffactorau sydd yn dylanwadu ar lwyddiant yr amcanion hyfforddi
19.
sut i adnabod unrhyw effeithiau o'r rhaglen hyfforddiant a allai fod yn niweidiol i iechyd a lles yr anifail
20. pam y mae'n rhaid gwneud unrhyw addasiadau i'r rhaglen hyfforddiant gan y person sydd wedi dylunio'r rhaglen a pheidio eu gweithredu heb gymeradwyaeth
21. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, â’r ffordd orau o wneud hyn
22. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddiant a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol
23. ble i gael cyngor ac arweiniad proffesiynol a rôl cyrff a chymdeithasau proffesiynol
24. eich cyfrifoldebau proffesiynol a phwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i gynnal cymhwysedd proffesiynol

## Cwmpas/Ystod

**Asesu addasrwydd yr anifail trwy ystyried:**

1. rhywogaeth
2. brîd
3. oed
4. cydymffurfio
5. ffitrwydd corfforol
6. sgôr pwysau/cyflwr
7. hanes hyfforddiant
8. hanes meddygol

**Adnoddau:**

1. personél
2. cymhorthion/cyfarpar hyfforddiant
3. cymhorthion/cyfarpar trafod
4. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

## Geirfa

**Gallai deddfwriaith lles anifeiliaid fod fel a ganlyn:**

- Deddf Llawfeddygon Milfeddygol
- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)

LANAnC47

Gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAnC55 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Hyfforddiant ac Ymddygiad Cŵn, Hyfforddiant ac Ymddygiad Anifeiliaid, Anifeiliaid mewn Addysg ac Adloniant |
| **Cyfres/Set** | Gweithgareddau Milfeddygol Lled-broffesiynol, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | anifail; hyfforddiant; unigolion; rhaglen |